

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi Mehefin-Gorffennaf-Awst 2024

SULIAU MEHEFIN

Y manylion diweddaraf o Fryn Hafod
Trowch at yr What's app

Sul 2 Mehefin		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog – Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y pnawn	Gweinidog - Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Gweinidog – Cymun
Sul 9 Mehefin		
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion ac Aberduar (yn Seion)	2.00 y pnawn	Gweinidog—Cymun
Sul 16 Mehefin		
Noddfa	10.00 y bore	Parchg Judith Morris
Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Brynhafod a Seion (ym Mrynhafod)	2.00 y pnawn	Parchg Judith Morris

Sul 23 Mehefin

Trip yr ofalaeth— manylion ar dudalen 3

Sul 30 Mehefin

Oedfa unedig y Cylch—Bethel Silian—10.30 y bore

SULIAU GORFFENNAF AC AWST

Sul 7 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y pnawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Gweinidog—Cymun

Sul 14 Gorffennaf

Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion ac Aberduar (yn Seion)	2.00 y pnawn	Gweinidog—Cymun

Sul 21 Gorffennaf

Noddfa	10.00 y bore	Parchg Sian Elin Thomas
Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Brynhafod	2.00 y pnawn	Parchg Siân Elin Thomas

(Oedfa deulu ynghyd â'r plant)

Sul 28 Gorffennaf

Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Brynhafod a Seion (ym Mrynhafod)	2.00 y pnawn	Gweinidog

Sul 4 Awst

Oedfa unedig ar gyfer eglwysi'r dref

Noddfa	10.00 y bore	Gweinidog

Sul 25 Awst

Oedfa Eisteddfod Rhys Thomas James
Capel Brondeifi 10.30 y bore

Cymanfa Ganu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambed yng nghapel Caersalem ar Sul Mai 19. Llywyddwyd yn hwyliog gan Dyfan o Salem Caio a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Ronnie a Delyth o Gaersalem. Yr arweinydd oedd Delyth o Noddfa a'r organyddion oedd Ann ac Alwena hefyd o Noddfa. Er nad oedd nifer y cantorion yn uchel cafwyd canu canmoladwy wrth i bawb ymateb yn dda iawn i gyfarwyddiadau Delyth sydd yn arwain mewn ffordd mor gartrefol.

Gwaetha'r modd, mae plant wedi diflannu o nifer o'n Cymanfaoedd erbyn hyn. Felly pleser oedd cael cwmni aelodau Ysgol Sul Noddfa. Mwynhawyd gwledd yn eu cwmni yn gwrando arnynt yn rhoi o'u gorau wrth ganu a chyhoeddi'r emynau a'r rhai ieuengaf yn tynnu gwên gyda'u brwdfrydedd. Hefyd cyfoethogwyd y Gymanfa gan ddatganiadau swynol Emlyn a Helen. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Densil Morgan.

Diolch yn fawr i Delyth am ei chyfraniad gwerthfawr fel arweinydd, i aelodau Caersalem am eu croeso a'u paratoadau ac i bawb a gymerodd ran a chyfrannu at lwyddiant y Gymanfa. I ddiweddu'r prynhawn bu pawb yn cyfranogi o'r te ardderchog wedi ei drefnu gan Caersalem yng Nghanolfan Cwmann ac yn rhoi'r byd yn ei le o amgylch y byrddau a'r tywydd braf yn goron ar y cyfan. Braf oedd cael cyfle i ddod ynghyd i glodfori Duw ar gân.

Janet Evans

Gwibdaith yr Ofalaeth 23 Mehefin
Trawsfynydd a Mallwyd

Yn cychwyn o Llanbed am 9.30 o'r gloch cyn ymweld â Thrawsfynydd ac Eglwys Mallwyd

Siaradwr: Y Parchg Danni Worley
Gweinidog Arloesol Bedyddwyr Dolgellau

Swper ar y ffordd nôl yn Llety Parc Aberystwyth

Enwau i Ann Morgan (Noddfa) neu
Mair Jones (Brynhafod)

TAITH GERDDED BETHEL SILIAN
I GODI ARIAN I WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Cynhaliwyd Taith Gerdded Silian ar nos Fercher 15 Mai ar noson hyfryd o Wanwyn. Diolch i'r un-ar-ddeg a ymunodd yn y daith a drefnwyd gan Beryl Williams gydag Alun Jones, Parc-y-rhos, yn arwain y siwrne o bentref Silian, heibio i Gwarffynnon, ac ymlaen i Bant-mawr, i lawr drwy'r goedwig i'r ffordd fawr. Croesi'r ffordd fawr tua Gwesty Glynhebog a cherdded tua bythynnod Tŷ Hen, lan y llwybr, a chroesi'r ffordd fawr i lwybr cyhoeddus wrth ochr Henfeddau a lan dros y caeau i'r llyn. Cymryd y ffordd nôl lan heibio Gwarffynnon i'r pentref. Bu i ddwy newydd-ddyfodiad i'r pentref ymuno am daith byrrach dan arweiniad Jennifer Thomas, i lawr i lyn Glynhebog. Diolch i bawb o'r ardal a gyfrannodd yn ariannol at achos Cymorth Cristnogol eleni.